

Y Gymraeg mewn Busnes

sirgar.llyw.cymru/busnes

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council





Pam defnyddio'r Gymraeg yn eich busnes?

Ceir mantais busnes o ddefnyddio'r Gymraeg

Mae cynnig dewis iaith i'ch cwsmer yn arfer dda o ran gofal cwsmer ac yn dangos parch at y cwsmer a pharch at y Gymraeg.

Rydym yn byw mewn gwlad ddwyieithog.

Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae bron 80,000 o siaradwyr Cymraeg yn Sir Gâr. Wrth ystyried taw 183,777 yw poblogaeth y sir, mae bron 1 o bob 2 o'ch cwsmeriaid yn siarad Cymraeg.

Yn ôl ymchwil gan Cyngor ar Bopeth yn 2015, gwelwyd bod 94% o siaradwyr Cymraeg rhugl yn teimlo bod gwasanaeth Cymraeg da yn helpu cwmni i greu argraff, tra bod 90% o'r farn bod gallu cyfathrebu â sefydliadau trwy gyfrwng y Gymraeg yn golygu eu bod yn cael eu gwerthfawrogi fel cwsmeriaid.

Mae'r Gymraeg yn cael ei hybu a'i hyrwyddo yn eang ac mae hyn yn cael ei annog gan Lywodraeth Cymru, Comisiynydd y Gymraeg a Chyngor Sir Gâr ac mae cynnydd yn y galw am addysg ddwyieithog ar draws y sir. Gosodwyd nod cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050.

Does dim rhaid mynd ati i sicrhau bod popeth yn ddwyieithog yn syth. Beth am gymryd camau bychain er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn eich busnes yn raddol? Mae cymorth ar gael i chi wneud hyn.



Swyddogion Busnes, Helo Blod

Mae'r prosiect yma yn cynnig cymorth a chefnogaeth am ddim i fusnesau ar eu defnydd o'r Gymraeg. Gall hyn gynnwys cyfieithu am ddim, marchnata dwyieithog, help gyda recriwtio staff dwyieithog neu unrhyw beth i'w wneud a'r Gymraeg yn eich busnes. Mae'r gwasanaeth hwn i fusnesau bach a meicro.



Comisiynydd y Gymraeg

Os ydych yn fusnes mwy, mae **adran hybu Comisiynydd y Gymraeg** yma i'ch helpu. Maent wedi datblygu gwefan newydd i fusnesau sydd â'r nod o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. **Cewch Holiadur Hunan Asesu, wybodaeth am fanteision y Gymraeg a chanllawiau defnyddiol.**

Beth yw'r manteision o ddefnyddio'r Gymraeg?

- **Mae'n denu cwsmeriaid**
Dywedodd 82% o gwsmeriaid mewn ymchwil diweddar eu bod yn fwy tebygol o ddewis cwmni sy'n darparu gwasanaeth Gymraeg da.
- **Mae'n cryfhau brand**
Mae 82% o fusnesau'n cytuno neu'n cytuno'n gryf bod defnyddio'r Gymraeg yn ychwanegu gwerth at gynnyrch neu wasanaeth.
- **Mae'n cryfhau ffyddlondeb cwsmeriaid**
Mae iaith yn rhan bwysig o hunaniaeth pob person. Byddwch yn magu perthynas cyflym gyda chwsmeriaid sy'n siarad Gymraeg ac yna fe fyddan nhw'n siŵr o ddefnyddio'ch busnes eto os gwelant eich bod yn fusnes dwyieithog.
- **Mae'n dangos tegwch a chhydraddoldeb**
Mae defnyddio dwy iaith swyddogol Cymru'n arddangos parch i ddiwylliant y wlad a'i phobl.
- **Gall roi proffil uwch i'ch busnes**
Gall busnesau dwyieithog gael sylw ar y cyfryngau Gymraeg yn ogystal â'r rhai Saesneg.
- **Cyfrannu at warchod iaith a diwylliant cynhenid y sir**
Byddwch yn rhoi cyfle i drigolion y sir ddefnyddio'u Gymraeg. Syrthiodd canran y siaradwyr Gymraeg yn y sir gan 6% yn y cyfrifiad diwethaf. Bydd cynyddu gwelededd y Gymraeg yn eich busnes yn helpu atal y Gymraeg rhag lleihau fwy.

Gareth Davies, Cyfarwyddwr Rhanbarthol Lidl:



"Rydym yn hynod falch o fod yn rhan o'r cymunedau rydym yn gweithredu ynddynt, ac rydym yn archwilio cyfleoedd i wella profiad siopa ein cwsmeriaid yn barhaus. Rydym yn gwybod drwy adborth a gwaith amhrisiadwy Tîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg fod cwsmeriaid am weld yr iaith Gymraeg yn fwy amlwg yn ein siopau. Dyma pam rydym wedi cyflwyno arwyddion dwyieithog ym mhob un o siopau Lidl yng Nghymru."



Dechrau Gweithio'n ddwyieithog: Camau bach ond pwysig

Gallwch wneud y Gymraeg yn fwy gweledol yn eich busnes drwy gymryd camau bach. Bydd eich swyddogion Helo Blod Lleol yn gallu eich cynorthwyo gyda phob un o'r tasgau yma.



Arwyddion Dwyieithog

- Wrth i chi adnewyddu eich arwyddion neu osod arwyddion newydd gallwch greu arwyddion dwyieithog. Mae'n bosib na fyddwch eisiau newid enw'ch cwmni, felly beth am ddewis is-deitl dwyieithog yn lle, fel hyn:  
- Wrth i chi adnewyddu arwyddion fel 'gwthio' a 'thynnu' ar y drws ac arwyddion 'ar agor' ac 'ar gau', gallwch greu rhai dwyieithog.

Ar y ffôn

- Recordiwch neges peiriant ateb gyda'ch oriau agor er enghraifft yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn gyntaf.
- Cytunwch gyda'ch staff i gyfarch eich cwsmeriaid ar y ffôn ac wyneb yn wyneb yn ddwyieithog. Gallwch gyfarch yn anffurfiol wrth ddweud 'Shwmae', neu 'bore da', a dilyn hwn gyda chyfarchiad Saesneg tebyg.
- * Peidiwch â phoeni os nad ydych cyn gallu cario mlaen gyda'r sgwrs yn Gymraeg. Eglurwch nad ydych yn siarad Gymraeg yn rhugl. Bydd pawb yn gwerthfawrogi cyfarchiad dwyieithog beth bynnag.

Wyneb yn wyneb

- Anogwch eich staff i wisgo bathodynau neu **lanyards** laith gwaith i ddangos eu bod yn gallu siarad Gymraeg  
- Dangoswch arwydd neu **boster laith gwaith** os ydych staff (neu nifer o'r saff) yn gallu siarad Gymraeg.



Marchnata

- Y tro nesaf y byddwch yn archebu stoc o gardiau busnes, rhowch y wybodaeth yn ddwyieithog i'r argraffydd a dyluniwch y garden yn ddwyieithog (cefn wrth gefn er enghraifft).
- **Dyluniwch bosteri** neu daflenni dwyieithog i farchnata'ch busnes.
- Rhowch negeseuon Gymraeg neu rannol Gymraeg ar eich cyfryngau cymdeithasol. Gallwch gael cyngor ar sut i wneud hyn yn y **canllaw hwn**.
- Rhowch rhai eitemau Gymraeg yn eich Cylchlythyr.

Naws ddwyieithog

- Gallwch chwarae cerddoriaeth gefndirol ddwyieithog. Os ydych yn defnyddio'r radio yn y cefndir, defnyddiwch **Radio Cymru** ar rhai adegau o'r dydd.

Gallwch ddefnyddio playlists Cymraeg. Mae nifer o playlists Cymraeg ar wefan **dyddmiwsigcymru**, fel nad oes rhaid i chi greu rhai eich hun.

Gallwch ddefnyddio ffrwd gerddoriaeth ddwyieithog, er enghraifft **Cymru FM**.

Cefndir:

Cwmni crefftau Celtaidd yw Coppertop Crafts. Mae'r perchennog yn siarad Cymraeg ac yn awyddus i gynnig gwasanaeth Cymraeg i'w chwsmeriaid.

Camau:

Mae'r perchennog wedi sicrhau fod y Gymraeg yn weledol o fewn y busnes wrth ddefnyddio deunydd marchnata 'laith Gwaith', sef y bathodyn 'siarad Cymraeg' ac arwyddion amrywiol. Mae hefyd yn arddangos y bathodyn Cymraeg ar y dudalen Facebook i farchnata'r gwasanaeth Cymraeg, gwisgo 'lanyard' Cymraeg ac yn defnyddio arwydd 'Croeso'. Mae'r pethau bychain yma yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r cwsmer ac yn bendant yn denu siaradwyr Cymraeg at ei chynnyrch.

“ Oherwydd natur fy ngwaith celf a busnes h.y. gan ddefnyddio patrymau a delweddau Geltaidd Cymru, roeddwn i'n teimlo ei bod hi'n bwysig iawn cynnwys gwybodaeth ddwyieithog. Hefyd, cefais fy ngeni, fy magu a bellach yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin a Sir Ceredigion, lle mae'r Gymraeg yn bwysig iawn i ni. Felly, roeddwn i'n teimlo ei bod hi'n naturiol cynnwys y ddwy iaith. Mae hyn wedi helpu fy musnes yn aruthrol, ond yn enwedig ar y cyfryngau cymdeithasol, lle rwyf wedi ennyn diddordeb siaradwyr Cymraeg a'r rhai sydd yn falch o'r Gymraeg. ”

Llwyddiannau:

Mae'r perchennog wedi cael cyfle i arddangos ei gwaith ar raglen S4C - 'Prynhawn Da', a hynny wedi codi ei phroffil heb os. Mae'r Gymraeg wedi agor drysau ac wedi galluogi Coppertop Crafts i gyrraedd cynulleidfa ehangach.



Cefndir:

Mae Tea Traders yn siop de arbenigol/caffi yng nghanol Caerfyrddin, maent yn gwerthu dros 100 te dail rhydd ac anrhegion te. Maent hefyd yn gweini bwyd a diod ffres. Er nad yw'r perchnogion yn siarad Cymraeg maent yn gweld gwerth mawr o ddefnyddio'r Gymraeg yn y busnes.

Camau:

Mae'r *strapline* sydd ar logo'r cwmni yn ddwyieithog yn ogystal â rhan helaeth o'r man arwyddion o gwmpas yr adeilad – arwyddion fel 'Ar Agor/Ar Gau', rhifau'r byrddau ag ati. Maent yn arddangos cardiau cyfarch ar y byrddau i annog twristiaid i siarad ambell air o Gymraeg. Maent hefyd wedi sicrhau bod y fwydlen ganddynt yn hollol ddwyieithog. Rhain yw'r prif bethau y mae'r cwsmeriaid yn ei weld wrth fynychu'r caffi.

Llwyddiannau:

Mae'r cwmni hwn wedi eu enwebu ac wedi ennill amryw o wobrau ers iddynt agor yn 2017, gan gynnwys y wobr o'r Busnes Gorau yng Ngwobrau Busnes Tref Caerfyrddin, a'r Busnes mân-werthu Gorau yng Ngwobrau Busnes Gorllewin Cymru.

“ Rydym yn caru clywed cwsmeriaid yn siarad Cymraeg yn y siop. ”
 Rydym yn gwybod bod tua 50% o'n cwsmeriaid lleol yn siarad Cymraeg, ac rydym am iddyn nhw deimlo'n cyfforddus yn ein siop. Yn ogystal, rydym eisiau codi proffil yr iaith i ymwelwyr.



Bwydlen		Tea Traders	
DIODYDDO			
Te - Te Cymreg Tradidiadol (Sgapan Ni) - (dail 50mg)			
£2.25			
Te - Te Dail Rhydd Anrhegion - (dail 50mg)			£2.85
Caffi - Mawrth Dag - (Ar gwas)			£2.40
Cacwedd - Llaeth, Cwrn Pffar, Ananas, Sioen, Sioenau Tardd (£1.00)			£2.40
Socled Pweth - Gwasodol, Twest, Cwrn, Sioenau Tardd a Sioenau			£2.00
Ysgyberth - Sioenau, Sioenau, Mawr			£2.00
Diodydd Cwr - Gwasodol, Twest, Cwrn, Sioenau Tardd a Sioenau (£1.00)			
*Prifffwrdd yn cynnwys Llaeth Hanner Tyst, yn ogystal â Sioenau, Cwrnau ac Ananas			
BWYDLEN			
*Prifffwrdd yn cynnwys Llaeth Hanner Tyst, yn ogystal â Sioenau, Cwrnau ac Ananas			
Tost / Crysbedd / Cacennoedd Te - (dail 50mg) a Sioenau a Sioenau			£2.25
Brechdanau / Bannogion - (dail 50mg) a Sioenau a Sioenau			£4.95
Lleiswedd - Sioenau, Sioenau, Mawr a Sioenau, Cwrnau, Cwrnau, Cwrnau, Cwrnau			£5.95
Brechdanau wedi'u Tostio / Bannogion - (dail 50mg) a Sioenau a Sioenau			£5.95
Lleiswedd - Sioenau, Sioenau, Mawr a Sioenau, Cwrnau, Cwrnau, Cwrnau, Cwrnau			£5.95
Cawl a Dydd - Gwasodol a Sioenau prydau arbennig			£4.95
Pate a Thost - (dail 50mg) a Sioenau a Sioenau			£3.95
Salad Tynhoron			£4.95
Dorffwrdd - (dail 50mg) a Sioenau, Cwrnau, Cwrnau, Cwrnau, Cwrnau			£7.95
Prydau Arbennig a Dydd - (dail 50mg) a Sioenau prydau arbennig, Prifffwrdd a Sioenau			£7.95
Cacennoedd - (dail 50mg) a Sioenau, Cwrnau, Cwrnau, Cwrnau, Cwrnau			£7.95

Er mwyn gwneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg, gallwch adeiladu ar yr awgrymiadau uchod, fel hyn...

- **Gwefan**

Gweithiwch tuag at greu gwefan ddwyieithog. Bydd modd cael help wrth gyfieithu a dylunio gan ddechrau gyda'r tudalen lanio a'r rhai sy'n tueddi i fod yn statig. Yn y pen draw gallwch greu fersiwn Gymraeg a Saesneg o'ch gwefan a rhoi botwm 'Cymraeg/Saesneg' i'ch cwsmer gael dewis, ond cofiwch, does dim rhaidd gwneud yn syth. Dechreuwch trwy wneud rhannau o'r wefan ar y tro.

- **Arwyddion**

Yn ogystal ag arwyddion mawr parhaol, gallwch greu arwyddion a phosteri dros dro yn ddwyieithog yn eich busnes, er enghraifft os ydych yn arddangos cynnig arbennig, Gallwch ddarparu gwybodaeth am gynnyrch yn ddwyieithog hefyd, gan gynnwys prisiau yn enwedig os ydych yn tueddu i stocio'r un cynnyrch yn barhaol.

- **Wyneb yn wyneb**

Os ydych yn cyflogi staff sy'n siarad Cymraeg, cofiwch hyrwyddo hynny e.e. mewn troednodyn e-bost neu trwy roi'r logo laith Gwaith ger eu henwau ar y wefan. Os nad ydych yn gwybod pa aelodau o'ch staff sy'n siarad Cymraeg – gofynnwch y cwestiwn a chofnodwch hynny.

Gallwch gynnig rhai elfennau o'ch gwasanaeth yn Gymraeg. Os ydych chi'n fusnes sy'n cynghori, gofalu neu'n hyfforddi, gallech gynnig rhai elfennau o'ch gwasanaeth yn Gymraeg neu gallech gynnig gwasanaeth yn ddwyieithog gan rai aelodau o staff i'r cleientiaid.

Wedi i chi asesu pa elfennau o'ch gwasanaeth gallech chi gynnig yn Gymraeg, gallech edrych ar eich rhestr cwsmeriaid ac ystyried ydy gwasanaeth dwyieithog yn rhywbeth y byddent yn gallu defnyddio, ac yna cynnig ystod o wasanaethau Cymraeg iddyn nhw. Neu gallwch farchnata'r hyn sydd gyda chi i gynnig yn Gymraeg i gwsmeriaid newydd.

Mae modd gwneud defnydd amrywiol o'r logo laith gwaith i ddangos i gwsmeriaid eich bod yn cynnig gwasanaethau Cymraeg, e.e. defnydd electroneg neu sticeri bach i sticio ar daflenni gwybodaeth.





- **Cyfathrebu gyda chwsmeriaid**

Gallwch ateb ymholiadau Cymraeg ar y ffôn yn Gymraeg. Bydd angen ychydig o drefnu staff fel bod modd trosglwyddo ymholiadau Cymraeg i staff sy'n medru'r Gymraeg.

Gallwch ateb ymholiadau Cymraeg ar e-bost neu drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg. Gallwch ddefnyddio technoleg ar-lein i gael ystyr cyffredinol ymholiad cyn penderfynu sut i ddelio ag ef. Gallwch hefyd gael cymorth prawf-ddarllen neu gyfieithu am ddim i ateb ymholiadau yn Gymraeg.

- **Recriwtio staff dwyieithog**

Gallwch recriwtio staff sy'n medru'r Gymraeg. Ystyriwch pa elfennau o'ch gwasanaeth y byddech yn hoffi ei ddarparu'n Gymraeg a blaenoriaethwch staff newydd ar gyfer y gwasanaethau hynny, Gallwch hysbysebu am staff yn ddwyieithog. Bydd hyn yn dangos eich bod yn fusnes sy'n cydnabod y ddwy iaith.

Mae yna gyfryngau lle y gallwch recriwtio staff sy'n arbenigo mewn canfod staff sydd â sgiliau Cymraeg, fel www.lleol.cymru a www.golwg.360.cymru. Mae Cymry Cymraeg yn mynd i'r lleoliadau hyn i chwilio am swyddi lle y gallant ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg.

Os ydych am recriwtio gwirfoddolwyr sydd â sgiliau dwyieithog, gallwch gysylltu gyda'r Fenter Iaith Lleol. Gallant osod eich hysbysiadau ar eu tudalennau cyfryngau cymdeithasol lle mae siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn debygol o'u gweld. Gall yr Urdd neu'r Ffermwyr Ifanc eich cynorthwyo i ddenu gwirfoddolwyr ifanc sydd â sgiliau Cymraeg hefyd a gall cangen lleol o **Ferched y Wawr** neu www.cavs.org.uk fod o ddefnydd ar gyfer oedolion.

- **Cynnyrch dwyieithog**

Mae stocio neu gynhyrchu cynnyrch Cymraeg neu ddwyieithog yn rhoi pwynt gwerthu unigryw i'ch busnes. Mae'n denu cwsmeriaid newydd. Mae siaradwyr Cymraeg ar draws y byd yn aml yn chwilio am gardiau cyfarch Cymraeg, am adnoddau chwarae ac addysg Cymraeg, am addurniadau i'r tŷ a myrdd o bethau eraill yn Gymraeg,

Mae cynnyrch gyda pheynnau dwyieithog hefyd yn ennyn ffyddlondeb cwsmeriaid ac yn rhoi blas lleol i'r cynnyrch. Mae rhywun sydd am gefnogi cynnyrch o Gymru'n siŵr o brynu cynnyrch sydd wedi ei becynnu'n ddwyieithog.

* Cofiwch, wrth ymgeisio am gyllid o ffynonellau grant ar gyfer datblygu deunyddiau marchnata, mae'r rhan fwyaf o gronfeydd yn cydnabod bod cyfieithu yn elfen gymwys i'w gyllido.


Cefndir:

Cwmni gwerthu ceir yng Nghaerfyrddin yw Howards. Maent yn awyddus iawn i gynnwys y Gymraeg yn eu busnes a chan eu bod yn derbyn llawer o'u deunydd marchnata o brif swyddfeydd y cwmnïau mawr ceir maent yn eu gwerthu, mae'n rhaid iddynt gymryd agwedd ymarferol at weithredu'n ddwyieithog.

Camau:

Os ewch chi i'w safle nhw yng Nghaerfyrddin, mae'r holl arwyddion allanol yn ddwyieithog, ac mae llawer o'r staff gwerthu yn medru'r Gymraeg. Maent wedi penderfynu cynnwys rhywfaint o'r Gymraeg ar hafan y wefan ac yna rhywfaint o'r Gymraeg yma a thraw ar eu gwefan. Wrth wneud hyn, mae'n rhoi naws mwy Cymraeg i'r busnes heb Gymreigio popeth. Fe wnaethon nhw weld gwerth i hysbysebu'r cwmni ar sianel S4C ac maent wedi creu hysbysebion dwyieithog i Radio Sir Gâr yn y gorffennol.

“ Mae defnyddio'r Gymraeg wedi bod yn rhywbeth pwysig iawn i ni fel busnes. Rydym yn credu ei fod yn bwysig bod cwsmeriaid yn medru siarad â'n staff yn eu hiaith gyntaf. Rydyn ni wedi gweld bod hyn o fantais gan ei fod yn gwneud i'r cwsmer ymlacio a theimlo'n fwy cyfforddus wrth drafod gyda ni. Ers i ni gael cymorth gyda'n defnydd o'r Gymraeg, rydyn ni'n fwy hyderus i wneud y pethau bychain yn Gymraeg. Mae hefyd wedi gwneud i ni sylweddoli nad oes rhaid cael popeth yn ddwyieithog - rydym yn gwneud ein gorau i gynnwys cymaint o'r Gymraeg ag y gallwn ni. ”



Cefndir:

Wrth ddechrau busnes newydd sbon yn Sir Gâr penderfynodd Cyfarwyddwyr y busnes yma eu bod am gael enw uniaith Gymraeg i'r busnes er mwyn adlewyrchu natur ieithyddol yr ardal, sef Llandeilo. Ar ôl gofyn am gyngor a chymorth, fe benderfynwyd galw'r Siop yn 'Y Pantri Glas'. Roedd y tri chyfarwyddwr yn teimlo'n hollol hapus gyda'r enw a'i ystyr.

Camau:

Wedi penderfynu ar enw Cymraeg i'r busnes, aethant ati i gyfieithu darnau ar gyfer y Cyfryngau Cymdeithasol a'r wefan. Yna cyfieithwyd y wefan er mwyn iddo fod yn hollol ddwyieithog efo'r botwm Cymraeg i ddewis iaith. Wedi cael cymorth i gychwyn, mae'r perchnogion yn magu hyder yn yr iaith ac yn dechrau cyfieithu eu hun. Gan eu bod yn awyddus i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg ar y Cyfryngau Cymdeithasol.

“ Pan ddechreuon ni gynllunio ein busnes, roedd yn teimlo'n naturiol i chwilio am enw Cymraeg, yn enwedig bod mewn ardal sydd â chanran uchel o siaradwyr Cymraeg. Gyda'n gwybodaeth gyfyngedig ein hunain am y Gymraeg, roedd yn wych dod o hyd i gymorth mor frwdfrydig i ddewis ein henw a fyddai'n groesawgar i siaradwyr Cymraeg a'r di-gymraeg. Roedd hefyd yn wych cael cefnogaeth i fod yn ddwyieithog ar ein gwefan a'n postiadau ar y cyfryngau cymdeithasol o'r cychwyn. ”

Llwyddiannau:

Mae dwyieithrwyd y cwmni yn gymorth i greu delwedd o gwmni bach lleol a hynny, yn ei dro, yn denu cwsmeriaid lleol, sef yr union gynulleidfa darged sydd gan gwmni 'gwyrd' fel hwn.



Gweithio'n gwbl ddwyieithog: Camau breision

Os ydych cyn cychwyn busnes o'r newydd neu'n gwedd-newid eich busnes, mae'n wych gallu cynllunio'r cyfan yn ddwyieithog o'r dechrau. O wneud hyn, byddwch yn arbed arian gan osgoi talu am newidiadau gwastraffus.

Brand dwyieithog

- Dewiswch enw Cymraeg neu ddwyieithog – rhywbeth sy'n mynegi hunaniaeth Gymreig. Mae yna gyngor a syniadau yn **Canllawiau Dylunio Dwyieithog y Comisiynydd**.

Marchnata eich hun fel busnes dwyieithog

- Er mwyn gwneud yn siŵr fod y cyhoedd yn gwybod eich bod yn gallu gweithredu'n ddwyieithog a'ch bod yn falch o hynny, gallwch ddefnyddio'r arwydd iaith gwaith ar eich deunyddiau marchnata.
- Rhowch frawddeg ar ddiwedd eich e-byst i nodi fod croeso i bobl gysylltu gyda chi yn Gymraeg neu'n Saesneg.
- Cofiwch gysylltu gyda'r cyfryngau Cymraeg a chyda'r **papur bro** lleol os oes gennych stori ddiddorol am eich busnes. Rydych yn fwy tebygol o gael sylw ar y cyfryngau Cymraeg ac fe fyddwch yn lledaenu'r neges eich bod yn fusnes sy'n gefnogol i'r Gymraeg.
- Hysbysebwch eich busnes yn y papur bro lleol. Mae hyn yn rhad ac yn siŵr o ddenu cwsmeriaid lleol.
- Mynychwch wyliau a sioeau Cymraeg, fel **Gŵyl Canol Dre** neu ddathliadau Gŵyl Dewi cymunedol.

Defnyddio sgiliau iaith eich staff

- Awdit sgiliau – Gofynnwch i'ch staff i werthuso eu hunain gan roi 1 – 3 ar raddfa pa mor rhugl mae nhw'n ysgrifennu a siarad Cymraeg. Bydd hyn yn rhoi syniad dda i chi o ba mor hyderus mae nhw yn eu sgiliau eu hunain ac felly pa mor barod fyddan nhw i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg wrth weithio. Cofiwch, mae pobl yn tueddu i feddwl nad ydy eu Cymraeg yn ddigon da felly mae'n debygol y bydd eich staff yn gallu gwneud tipyn mwy yn Gymraeg nag y maen nhw'n meddwl y gallan nhw wneud.

Datblygu sgiliau staff – Gofynnwch i'ch staff a fydden nhw'n hoffi gwella eu sgiliau Cymraeg. Mae yna nifer o gyrsiau ar-lein yn ogystal â rhai wyneb yn wyneb y gallan nhw gofrestru arnynt ar **dysgucymraeg.cymru**. Neu gallech gysylltu gyda'r Ganolfan i drefnu sesiynau Cymraeg wedi eu teilwra i'ch gweithlu chi. Mae amryw o gyrsiau rhad ac am ddim ar gael i staff busnesau sydd eisiau dysgu Cymraeg.



- Rhoi cyfleoedd penodol i'ch staff sy'n dysgu Cymraeg i ddefnyddio'u Cymraeg. Gallwch drefnu paned a sgwrs wythnosol i gynorthwyo dysgwyr i ddefnyddio'u Cymraeg.
- Gallwch ofyn i staff sy'n siarad Cymraeg a fydden nhw'n fodlon cael eu paru gyda dysgwr Cymraeg i'w helpu wrth ynganu a dysgu geiriau newydd wrth weithio.
- Gallwch baratoi taflen o eirfa syml i'r staff sy'n dysgu Cymraeg, neu baratoi cyfarchiad iddyn nhw ddefnyddio gyda chwsmeriaid.

Gweithredu'n Gymraeg gyda'r cwsmer

- Gallwch ddarganfod pa gleientiaid/cwsmeriaid byddai'n hoffi delio gyda chi yn Gymraeg, naill ai drwy ofyn iddyn nhw'n anffurfiol yn eich cyswllt cyntaf gyda nhw neu drwy holiadur byr ar unrhyw adeg.
- Gallwch ddewis wedyn, naill ai cyfathrebu'n ddwyieithog gyda phawb, neu'n Gymraeg gyda'r rhai sy'n dymuno hynny ac yn Saesneg gyda'r lleill.
- Gallwch ddilyn y broses hon gyda busnesau rydych chi'n cydweithio gyda nhw hefyd ac ar ôl cael syniad o'u dewis iaith, gallech gynnal cyfarfodydd busnes yn Gymraeg. Peidiwch poeni am ddefnydd technegol a chywir o'r Gymraeg. Mae cyfathrebu'n naturiol a rhwydd yn llawer mwy pwysig.
- Os ydych yn cyfathrebu'n Gymraeg yn ysgrifenedig (drwy e-bost er enghraifft), cofiwch fod gwirydd iaith Cymraeg i gael ar Word, bod Cysill yn gallu gwirio'ch gramadeg a bod yna eiriaduron ar lein i gael i'ch cynorthwyo i symud o un iaith i'r llall.
- Lluniwch gylchlythyron dwyieithog a chofiwch am wasanaeth prawf-ddarllen y Comisiynydd, a gwasanaeth cyfieithu Helo Blod.

Gweithredu'n Gymraeg yn fewnol

- Gallech ddarparu dyddiau adeiladu tîm yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae yna ganolfannau awyr agored, a phob math o weithdai a hwyluswyr sy'n gallu darparu sesiynau Cymraeg neu ddwyieithog. Efallai y gallai eich Menter Iaith eich cynghori am rai lleol.
- Chwiliwch am hyfforddiant staff ar faterion perthnasol i'ch busnes yn Gymraeg. Cysylltwch gyda'ch Menter iaith leol (manylion ar ddiwedd y ddogfen).
- Cynlluniwch eich hyfforddiant eich hun yn Gymraeg neu'n ddwyieithog. Gallech ddefnyddio hwylusydd dwyieithog hyd yn oed os nad ydynt yn arbenigo yn y maes rydych chi am hyfforddi.
- Gallwch ddarparu systemau cofnodi oriau gwaith / gwyliau ayb yn Gymraeg.
- Gallech ddarparu contractau i staff yn Gymraeg os ydyn nhw'n dymuno hynny.

Digwyddiadau cyhoeddus

- Os ydych yn trefnu ymgyrchoedd marchnata, cynlluniwch nhw yn ddwyieithog. Gallwch greu posteri dwyieithog, gallwch drydar yn ddwyieithog a gwneud clipiau fideo dwyieithog.
- Gallwch gynnal ymgyrch farchnata yn Gymraeg a Saesneg o fewn yr un ymgyrch neu gallwch drefnu un Cymraeg a Saesneg ar wahân. Mae'n bosib y byddech yn dymuno lledaenu'r ymgyrch Gymraeg ar blatfformau gwahanol i'r un Saesneg.
- Yn yr un modd, os ydych yn trefnu digwyddiad, cynlluniwch y digwyddiad yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg ar adnoddau gweledol a gyda chyhoeddiadau a chyfraniadau dwyieithog.

Hybu'r Gymraeg

- Os ydych eisiau mynd gam ymhellach i hybu'r Gymraeg, gallech gynnig eich lleoliad busnes i'r Fenter Iaith leol i drefnu sesiynau clonc i ddysgwyr er enghraifft.
- Gallech noddi digwyddiadau a chlybiau cymunedol Cymraeg,
- Hysbysebwrch eich busnes yn y papur bro lleol.
- Gallech hysbysebu ar y cyfryngau Cymraeg, ar S4C neu Radio Cymru.
- Beth am ymwneud gyda **Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd** neu **Eisteddfod Genedlaethol Cymru**. Gallech gael stondin werthu ar y maes. Gallech dendro am waith darparu gwasanaeth i'r Eisteddfod neu gallech noddi un o'u cystadlaethau mawreddog.



Cefndir:

Sefydlwyd y cwmni yn 2018 ac o'r cychwyn cyntaf roedd y perchnogion yn awyddus i gynnwys y Gymraeg yn eu busnes. Roedd y ddau wedi symud yn ôl i gefn gwlad o'r ddinas. Roedd un o'r perchnogion yn siarad Cymraeg iaith gyntaf a'r llall yn ddysgwr. Mae'r elfen gymunedol yn bwysig iawn iddynt fel busnes ac mae'r Gymraeg yn rhan fawr o hwnnw.

Camau:

Wrth adeiladu eu gwefan, label i'r cynnyrch ac unrhyw nwyddau marchnata, roeddent yn meddwl am y Gymraeg ar bob adeg ac felly wedi sefydlu hunaniaeth Gymreig a Chymreig i'r busnes o'r cychwyn. Wrth i chi ymweld â gwefan y cwmni, mae ganddynt ddewis i newid rhwng y ddwy iaith. Mae'r mwyafrif o'r postïadau ar eu cyfryngau cymdeithasol hwnnw hefyd yn ddwyieithog.

“ Mae defnyddio'r Gymraeg wedi bod yn sylfaenol i lwyddiant ein busnes cychwynol. Mae wedi rhoi hunaniaeth glir inni ac wedi ein helpu i sefyll allan. Cawsom ymateb anhygoel gan siaradwyr Cymraeg sy'n gwerthfawrogi cyfathrebu â ni yn y Gymraeg, ac maent wedi dod yn gwsmeriaid ffyddlon erbyn hyn. Mae defnyddio Cymraeg wedi helpu ni i gryfhau ein brand a'n safle mewn marchnad orlawn. ”

Llwyddiannau:

Mae Jin Talog wedi datblygu mewn adeg cymharol fyr i fod yn frand adnabyddus gan ennyn sylw cylchgrawn Vogue yn ystod cyfnod y Nadolig 2019. Maent hefyd wedi ennill amryw o wobrau am ei jin.



Cefndir:

Yn gyn-athro ysgol gynradd gyda diddordeb mawr mewn chwaraeon, sefydlodd Steffan Hughes ei gwmi Sgiliau i gynnig gweithdai, partion a digwyddiadau chwaraeon i blant yn Sir Gaerfyrddin. O'r cychwyn, roedd y Gymraeg yn ganolog i'w ddarpariaeth. Roedd Steffan yn sylweddoli bod y ffaith ei fod yn medru darparu'n Gymraeg ac yn Saesneg yn golygu y gallai ddarparu i holl ysgolion cynradd y sir a thu hwnt.

Camau:

Pan agorodd Steffan Ganolfan chwarae meddal, o'r enw Sgiliau yng Nghaerfyrddin, gwnaeth hynny yn gwbl ddwyieithog o'r cychwyn. Gan gofio ei gynulleidfa a'r holl rieni sy'n magu eu plant yn ddwyieithog yn y sir, sefydlodd Ganolfan gydag enw Cymraeg, gyda staff dwyieithog, gyda delwedd ddwyieithog a deunyddiau a negeseuon marchnata dwyieithog or cychwyn cyntaf wrth sefydlu enw i'w gwmi.

“ Roedd hi'n benderfyniad naturiol i weithredu yn ddwyieithog o'r cychwyn gan fy mod yn awyddus i'r plant, ffrindiau a'u rhieni fedru mwynhau'r cyfleusterau a'r gweithgareddau yn ei mamiaith naturiol - boed yn Gymraeg neu Saesneg. Roedd y ffaith fy mod yn gallu cynnig gwasanaeth ddwyieithog yn fy ngalluogi i ddarparu'r gwasanaeth yn ysgolion ar draw y Sir a thu hwnt. Roedd yn gwneud synnwyr busnes a dweud y gwir.

Steffan Hughes

”



- **Cyngor Sir Gâr**
- **Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg**

Mentrau Iaith: Mae'r Mentrau'n gallu cefnogi unrhyw ymdrechion i hyrwyddo'r Gymraeg yn eu hardaloedd.

- Menter Dinefwr – ardal Llandeilo, Llanymddyfri, Rhydaman, Cwm Aman
 - 📌 MenterDinefwr
 - 📞 01558 825336
 - ✉ post@menterbrodinefwr.cymru
- Menter Cwm Gwendraeth Elli – ardal Cwm Gwendraeth a Llanelli
 - 📌 MenterCwmGwendraethElli
 - 📞 01269 871600
 - ✉ post@mcge.org.uk
- Menter Gorllewin Sir Gâr – ardal Castell Newydd Emlyn, Caerfyrddin, Hendy Gwyn ar Daf a'r ardaloedd cyfagos
 - 📌 mentergorllewinsirgar
 - 📞 01239 712934
 - ✉ ymholiad@mgsq.cymru

Gwasanaeth Helo Blod: Mae Helo Blod yn wasanaeth cyflym a chyfeillgar sy'n helpu busnesau ac elusennau i ddefnyddio'r Gymraeg. Picia draw i Helo Blod i fanteisio ar wasanaeth cyfieithu, wirio testun neu gyngor ymarferol am ddefnyddio'r Gymraeg yn dy fusnes. Mae'r cwbl lot am ddim!

- **Cyfieithu am ddim** – cyfieithu hyd at 500 gair i'r Gymraeg bob mis, fesul sefydliad.
- **Gwirio Testun** - gwirio 1,000 o eiriau bob blwyddyn am ddim, gan roi'r hyder i bobl fod y deunydd maen nhw'n ei gynhyrchu yn Gymraeg yn gywir.
- **Gwasanaethau Eraill** - cyngor ymarferol, arweiniad a chymorth i sefydliadau a mudiadau cymwys ddefnyddio mwy o'r Gymraeg. Gallai hyn fod yn rhywbeth mor syml ag archebu lanyard a / neu fathodyn i nodi bod staff neu wirfoddolwyr yn siarad neu'n dysgu Cymraeg.
- **Helo Blod Lleol** – I dderbyn cefnogaeth rithiol (ac wyneb yn wyneb wedi cyfyngiadau presennol) cysyllta gyda dy swyddog Helo Blod Lleol .
- **Sarah Jones**
Swyddog Helo Blod Lleol Rhanbarth Dinefwr, Gwendraeth ac Elli
 - ✉ sarah.jones@heloblodlleol.cymru
 - 📞 07809 731579 / 01558 825336
- **Heledd Llwyd**
Swyddog Helo Blod Lleol Rhanbarth Gorllewin Sir Gâr a Sir Benfro
 - ✉ heledd.llwyd@heloblodlleol.cymru
 - 📞 07809 731571 / 01239 712934